

Cylchlythyr W17/17HE: Atodiad C

Cyngor Cyllido Addysg  
Uwch Cymru  
Higher Education Funding  
Council for Wales

hefcw

# Strategaeth Gorfforaethol 2017-2020

## Drafft Ymgynghorol



Noddir gan  
**Lywodraeth Cymru**  
Sponsored by  
**Welsh Government**

## **Strategaeth Gorfforaethol 2017-2020**

### ***Addysg uwch gynaliadwy, hygyrch a rhagorol yn rhyngwladol***

Mae'r Strategaeth Gorfforaethol hon yn datgan ein blaenoriaethau yn ystod y tair blynedd nesaf. Mae'n sicr bod y tair blynedd yma'n mynd i fod yn gyfnod o ansicrwydd mawr iawn. Bydd adnoddau cyhoeddus, sydd eisoes dan bwysau, yn wynebu rhagor o ymyrraeth o ganlyniad i benderfyniad y DU i adael yr UE. Yn fwy lleol, bydd y tair blynedd nesaf yn gweld camau cynnar y symud oddi wrth y dull presennol o gyllido addysg uwch yng Nghymru i ddull cwbl newydd. Hefyd, yn amodol ar ymgynghoriad y llywodraeth sydd i gael ei gynnal, byddwn yn symud oddi wrth gorff cyllido addysg uwch i'r corff cyfryngol newydd ar gyfer addysg ôl-orfodol, wedi i Lywodraeth Cymru dderbyn argymhellion adolygiad Hazelkorn.

Bydd cyflawni blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg uwch yn dibynnu i raddau helaeth ar ddarparwyr addysg uwch, prifysgolion a cholegau addysg bellach, ac amrywiaeth o randdeiliaid eraill, a fydd â rhan i'w chwarae i gyd. Mae gennym ni hefyd ran bwysig i'w chwarae, fel cyllidwr, rheoleiddiwr a dylanwadwr, a thrwy weithio mewn partneriaeth â myfyrwyr. Rydym yn cydnabod nad ni yw'r unig ffynhonnell o incwm ar gyfer darparwyr AU; mae cyrff eraill sy'n cyllido rhai gweithgareddau, mae incwm masnachol ac mae cyfraniad sylweddol o ffioedd myfyrwyr.

Mae'r rhai sy'n darparu addysg uwch wedi'u gwreiddio yn eu cymunedau ac yn darparu gwasanaethau i bobl Cymru. Hefyd maent yn gyfranwyr arwyddocaol at economi Cymru, yn gweithio ledled y DU ac yn rhyngwladol. Po fwyaf o fuddsoddiad cyhoeddus fydd mewn addysg uwch, y mwyaf a geir yn ôl. Er hynny, yn ychwanegol at swm y cyllid sydd ar gael, gellir cryfhau perfformiad drwy ddefnydd cynyddol wedi'i dargedu o'r cyllid hwnnw, drwy bennu targedau perfformio penodol a monitro yn eu herbyn, a thrwy anogaeth gyson yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn o beth sy'n gweithio. Yn y ffyrdd hyn, mae CCAUC yn gatalydd pwysig o ran sicrhau bod system addysg uwch Cymru'n darparu canlyniadau cynaliadwy i Gymru.

Mae'r Strategaeth Gorfforaethol hon yn wahanol i strategaethau blaenorol. O feddwl am natur yr ansicrwydd cyd-destunol a amlinellir uchod, mae, o angenrheidrwydd, yn strategaeth lefel uchel - yn gryno ac yn osgoi manylion diangen. Mae hefyd yn canolbwyntio ar beth fyddwn ni'n ei wneud fel sefydliad, yn hytrach nag yn benodol ar beth rydym yn disgwyl i ddarparwyr ei gyflawni. Mae hyn yn fwriadol: dylai ein Strategaeth Gorfforaethol bennu disgwyliadau ar gyfer ein perfformiad ein hunain. Er hynny, nid yw'n arwydd o unrhyw wanio ar ein huchelgais ar gyfer Cymru i fod â'r system addysg uwch orau posib o ran perfformiad, o ystyried y cyd-destun rydym yn gweithio ynddo i gyd. Drwy gyllid, rheoleiddio a dylanwad, a thrwy weithio mewn partneriaeth â myfyrwyr, byddwn yn ceisio creu amgylchedd i ddarparwyr addysg uwch gynnig addysg uwch gynaliadwy, hygyrch a rhagorol yn rhyngwladol.

**Dr David Blaney**  
Prif Weithredwr



## Strategaeth Gorfforaethol 2017-2020

### Ein Gweledigaeth:

*Addysg uwch gynaliadwy, hygyrch a rhagorol yn rhyngwladol yng Nghymru*

### Ein Cenhadaeth:

*Wrth gyflawni'r weledigaeth hon, byddwn yn gwneud y canlynol:*

- *Cyllido addysg uwch yng Nghymru*
- *Rheoleiddio darparwyr addysg uwch yng Nghymru*
- *Dylanwadu gyda chynghor seiliedig ar dystiolaeth a gwaith partneriaeth cadarn*
- *Gweithio mewn partneriaeth â myfyrwyr*
- *Gweithredu'n effeithiol fel sefydliad*

### Ein Nodau Llesiant:

Sicrhau bod addysg uwch yng Nghymru yn berthnasol ac yn hygyrch i bawb a all elwa ohoni, neu gyfrannu ati	Cymru lewyrchus, Cymru iachach, Cymru sy'n fwy cyfartal, Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu.
Hyrwyddo addysg uwch ragorol yn rhyngwladol sydd hefyd yn gweithio i gefnogi llesiant byd-eang, a datblygiad cynaliadwy	Cymru lewyrchus, Cymru gydnerth, Cymru iachach, Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.
Hybu system o AU sy'n gynaliadwy yn ariannol, yn economaidd, yn gymdeithasol ac yn amgylcheddol	Cymru gydnerth, Cymru o gymunedau cydlynus.
Sicrhau bod CCAUC yn batrwm o sefydliad gyda chydarddoldeb, partneriaeth a chynaliadwyedd yn rhan sylfaenol o gyflawni ein cenhadaeth	Cymru sy'n fwy cyfartal, Cymru lewyrchus, Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang, Cymru o gymunedau cydlynus.

## Rydym yn cyllido addysg uwch yng Nghymru

Rhwng nawr a 2020, byddwn yn gwneud y canlynol:

- Cyllido ymchwil, addysgu (gyda'r pwyslais cychwynnol ar bynciau drud a'r ddarpariaeth ran amser) a gweithgareddau eraill mewn prifysgolion a cholegau i gefnogi cyflawni blaenoriaethau polisi addysg uwch Llywodraeth Cymru;
- Cyllido'r ddarpariaeth addysg uwch mewn sefydliadau addysg bellach;
- Cyllido darparu gwasanaethau i gynorthwyo sefydliadau;
- Rhoi camau gweithredu CCAUC sy'n codi o ymateb Llywodraeth Cymru i argymhellion yr Adolygiad o Gyllido Addysg Uwch a Chyllid Myfyrwyr (Adolygiad Diamond) ar waith;
- Adolygu ein dulliau cyllido er mwyn ystyried Adolygiad Diamond;
- Monitro'r defnydd o gyllid ac effaith.

## Rydym yn rheoleiddio darparwyr addysg uwch yng Nghymru

Rhwng nawr a 2020, byddwn yn gwneud y canlynol:

- Cymeradwyo neu wrthod cynlluniau mynediad a ffioedd a monitro canlyniadau cynlluniau fel maent yn berthnasol i gyfleoedd cyfartal a hybu addysg uwch;
- Monitro lefelau ffioedd cyrsiau a reoleiddir;
- Sicrhau bod darpariaeth lle mae'r ansawdd yn annigonol neu'n debygol o fod yn annigonol yn cael sylw;
- Monitro cynaliadwyedd ariannol darparwyr AU a threfniadaeth a rheolaeth eu materion ariannol, gan gynnwys drwy gyfrwng y Cod Rheoli Ariannol;
- Ymyrryd os yw hynny'n briodol yn unol â'n dyletswyddau statudol i reoleiddio;
- Cyhoeddi gwybodaeth am ein rôl reoleiddio i bartïon sydd â diddordeb;
- Rheoleiddio yn ôl risg, yn unol â'n dyletswyddau statudol;
- Gweithio mewn partneriaeth â rheoleiddwyr eraill i leihau baich a dyblygu;
- Ysgwyddo ein cyfrifoldebau fel yr awdurdod monitro ar gyfer sut mae cyrff addysg uwch perthnasol yn gweithredu'r ddyletswydd Atal statudol;
- Ysgwyddo ein cyfrifoldebau am hyfforddiant cychwynnol i athrawon;
- Cynnwys llais y myfyrwyr yn benodol yn y prosesau a'r gofynion reoleiddio;
- Delio â honiadau a gyflwynir i CCAUC yn erbyn darparwyr addysg uwch yng Nghymru.
- Adrodd yn ôl i Weinidogion Cymru ar ein cyfrifoldebau statudol.

## **Rydym yn dylanwadu gyda chyngor seiliedig ar dystiolaeth a gwaith partneriaeth cadarn**

Rhwng nawr a 2020, byddwn yn gwneud y canlynol:

- Gweithio gyda'r holl rhanddeiliaid i sicrhau cymaint o gyflawni â phosib ar flaenoriaethau polisi Llywodraeth Cymru, gan gynnwys ar gyfer ehangu mynediad, profiad y myfyriwr, sgiliau a chyflogadwyedd ac ymchwil, arloesi ac ymgysylltu, gan gynnwys drwy gyfrwng y Gymraeg;
- Hybu manteision addysg uwch i'r economi ac i gymdeithas;
- Casglu a dadansoddi data a chyfuno dystiolaeth, i ddarparu llais awdurdodol ar addysg uwch;
- Datblygu mesurau ar gyfer monitro perfformiad a chyflawniad darparwyr addysg uwch;
- Monitro goblygiadau gadael yr Undeb Ewropeaidd i sefydliadau AU;
- Fel y brif ffynhonnell o arbenigedd AU annibynnol yng Nghymru, defnyddio dystiolaeth i gynghori, cyflwyno gwybodaeth a herio darparwyr ac, os yw hynny'n briodol, Llywodraeth Cymru, gan gynnwys cyhoeddi manylion am berfformiad darparwyr;
- Hybu ac annog cydweithredu rhwng darparwyr a gyda rhanddeiliaid eraill i ddiwallu anghenion Cymru yn well;
- Gweithio gyda darparwyr AU i sicrhau cyflawni yn unol â chyfrifoldebau statudol.

## **Rydym yn gweithio mewn partneriaeth â myfyrwyr**

Rhwng nawr a 2020, byddwn yn gwneud y canlynol:

- Gweithio gydag NUS Cymru, y sector a rhanddeiliaid eraill i sbarduno'r agenda o fyfyrwyr fel partneriaid;
- Annog darparwyr i ymateb i amrywiaeth profiad y myfyrwyr;
- Ymgorffori llais y myfyrwyr yng nghanllawiau a pholisïau ein sector;
- Annog cyhoeddi gwybodaeth ddibynadwy ac amserol am addysg uwch;
- Monitro a rheoli effeithiau anfwriadol y newidiadau i'r drefn gyllido a ffioedd ar gyllid myfyrwyr;
- Gweithredu system reoleiddio gymesur a chadarn sy'n lleihau'r risg i'r myfyrwyr ac i sefydliadau.

## Rydym yn gweithredu'n effeithiol fel sefydliad

Rhwng nawr a 2020, byddwn yn gwneud y canlynol:

- Gweithio gyda Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid i fwrw ymlaen â gweithredu'r Adolygiad Annibynnol o Reoleiddio a Goruchwylio Addysg a Hyfforddiant Ôl-Orfodol yng Nghymru (Adolygiad Hazelkorn);
- Datblygu cynllun gweithredu blynyddol ar gyfer ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru, yn seiliedig ar ein strategaeth gorfforaethol a hefyd ein llythyr cylch gwaith blynyddol;
- Gweithio mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys Llywodraeth Cymru;
- Parhau i fod yn gyflogwr o ddewis;
- Gweithredu ein cynllun cydraddoldeb strategol a safonau'r iaith Gymraeg;
- Gweithredu ein nodau Llesiant;
- Bod yn gynaliadwy ac yn gyfrifol yn ariannol;
- Parhau i wella fel sefydliad.

## **Ffactorau Llwyddiant CCAUC**

Erbyn 2020, byddwn wedi gwneud y canlynol:

1. Cyflwyno dyraniadau cyllido blynyddol i ddarparwyr AU sydd, yng nghyd-destun yr ystod ehangach o gefnogaeth ariannol ar gyfer darparu addysg uwch, yn sicrhau darparu'r blaenoriaethau polisi gorau posib gyda'r cyllid sydd ar gael;
2. Gweithredu'r newidiadau gofynnol i'n prosesau a'n gweithdrefnau er mwyn ymateb i weithredu adroddiad Diamond;
3. Llunio adroddiadau amrywiol yn dangos y defnydd o arian cyhoeddus rydym wedi'i weinyddu;
4. Ymgorffori'n llawn y drefn reoleiddio a ddatblygwyd yn Neddf AU (Cymru) 2015 ar gyfer sefydliadau a reoleiddir;
5. Dylunio a gweithredu'r trefniadau gweithredol ar gyfer 'dynodiad penodol'<sup>1</sup>.
6. Cyhoeddi gwybodaeth gyhoeddus amrywiol ar gyfraniad addysg uwch at gymdeithas a'r economi.
7. Monitro sefydlogrwydd ariannol y sector, gan ddefnyddio ystod o ymyriadau ariannol a rheoleiddiol i sicrhau gweithredu i gywiro os oes angen hynny.
8. Sicrhau bod ansawdd y ddarpariaeth yn y sector wedi cael ei asesu, gan ddefnyddio ystod o ymyriadau ariannol a rheoleiddiol i sicrhau gweithredu i gywiro os oes angen hynny;
9. Gweithio'n effeithiol gyda darparwyr addysg uwch, addysg bellach a dysgu seiliedig ar waith i sicrhau'r pontio llyfnaf posib i drefniadau ôl-Hazelkorn<sup>2</sup>.
10. Sicrhau bod persbectif y myfyrwyr yn cael cynrychiolaeth briodol yn ein gwaith ac yng ngwaith darparwyr;
11. Cyflawni o leiaf 95% o dargedau ein cynllun gweithredol lle mae ffactorau allanol yn atal cyflawni.
12. Cynnal ein perfformiad fel cyflogwr effeithiol, gyda dangosyddion cyflogaeth cadarn a hefyd staff sydd wedi'u cymell yn dda ac sy'n ymgysylltu'n dda.

---

<sup>1</sup> Yn amodol ar Lywodraeth Cymru yn cadarnhau ein rôl yn y broses hon.

<sup>2</sup> Yn amodol ar broses ymgynghorol Llywodraeth Cymru.